# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Rhymni**

**Canolfan Gymunedol Dewi Sant**
**Y Stryd Fawr**
**Rhymni**
**Tredegar**
**NP22 5NB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Rhymni

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Rhymni |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Ionawr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i chwarae a dysgu ac i feithrin eu hannibyniaeth drwy amrywiaeth o gyfleoedd chwarae cyffrous.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn rhoi sylw i anghenion y plant ac yn parchu ei gilydd a'r plant y maent yn gofalu amdanynt.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn groesawgar. Mae dodrefn, teganau ac adnoddau o ansawdd da y tu mewn a'r tu allan yn annog y plant i chwarae a datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a'i fod yn hybu iechyd a llesiant y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Ceir gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'r person â chyfrifoldeb yn helpu'r staff i wneud eu gwaith yn dda. Mae'r rhieni yn canmol y gofal a ddarperir gan y staff yn y lleoliad. Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau y caiff y gwasanaeth gorau ei ddarparu i'r plant sy'n mynychu'r lleoliad.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Gallant ddewis o blith amrywiaeth eang o weithgareddau. Er enghraifft, gwelsom y plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgaredd lle roeddent yn defnyddio morthwyl i fwrw tïau golff i mewn i focs er mwyn datblygu eu sgiliau echddygol manwl. Mae'r plant yn mynd at y staff ac yn mynegi eu meddyliau a'u syniadau. Maent yn gwybod bod y staff yn gwrando arnynt a chaiff pob ymdrech i gyfathrebu ei gwerthfawrogi. Er enghraifft, gwelsom y staff yn ymateb i blentyn a oedd yn dangos diddordeb yn y gornel gartref.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff sy'n garedig, yn addfwyn ac yn gynnes iawn. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd at y staff am gysur pan fyddant yn drist neu'n ei chael hi'n anodd setlo. Maent yn gyfarwydd iawn â'r staff ac mae hynny'n eu helpu i setlo'n gyflym. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad ac yn mwynhau'r drefn honno. Mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, gwelsom y plant yn aros yn llawn cyffro i'r staff agor y drws er mwyn mynd allan i chwarae.

Mae'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dechrau parchu ei gilydd ac adnoddau'r lleoliad. Gwelsom y plant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd yn ardal y gegin y tu allan, gan sgwrsio'n hapus am beth roeddent yn esgus ei goginio.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael budd o'r amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol i'w hoedran sydd ar gael iddynt. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr. Gwelsom fod y plant wrth eu bodd yn chwarae. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau dweud wrth ei gilydd ac wrth y staff pan oeddent yn gallu gweld awyrennau yn yr awyr. Caiff y plant eu hannog i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac mae'r rhan fwyaf yn chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r plant yn meithrin amrywiaeth dda o sgiliau wrth chwarae. Maent yn cael cyfleoedd i ddod yn annibynnol. Mae'r plant yn cymryd rhan drwy weini eu hunain ac arllwys eu llaeth neu eu dŵr eu hunain. Fodd bynnag, nid ydynt yn torri eu byrbrydau eu hunain. Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hanghenion iechyd a hylendid eu hunain, er enghraifft, mae'r plant yn golchi eu dwylo yn barod ar gyfer amser byrbryd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad. Maent yn hyderus wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn dilyn y gweithdrefnau sydd ar waith i hybu lles y plant, gan gynnwys polisi diogelu. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran eu rôl amddiffyn plant. Maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r lleoliad drwy roi gwybod am unrhyw achosion a chwblhau'r gwaith papur perthnasol i sicrhau bod y plant yn ddiogel. Maent yn cydgysylltu â swyddog diogelu'r awdurdodau lleol am gymorth ac arweiniad pan fo angen. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion iechyd y plant, gan gynnwys alergeddau, gofynion deietegol ac anghenion meddygol. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes yn briodol. Caiff y cofnodion hyn eu gwerthuso er mwyn nodi patrymau a helpu i wneud gwelliannau, os bydd eu hangen, o amgylch y lleoliad. Mae'r staff yn paratoi byrbrydau iach ac amrywiaeth o ffrwythau ffres ynghyd a llaeth a dŵr. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol perthnasol wrth wneud hynny.

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant, gan ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dangos esiampl gadarnhaol i'r plant y maent yn gofalu amdanynt, gan eu trin nhw a'i gilydd â pharch a charedigrwydd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff arferion o ansawdd da eu cynnal drwy gydol pob sesiwn. Mae'r staff yn dangos diddordeb yng nghyflawniadau'r plant Er enghraifft, gofynnodd aelod o'r staff i blentyn a oedd eisiau ei helpu hi a dangosodd ei bod wrth ei bodd pan gytunodd "*Oh, wyt ti eisiau helpu fi os gwelwch yn dda? Oh diolch, you're a bachgen da"* Gwenodd yr aelod o staff a chanmolodd y plentyn am gymryd rhan a'i helpu hi.

Mae'r staff yn gefnogol, yn fagwrus ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant er mwyn cefnogi eu chwarae a'u datblygiad. Maent yn cofnodi ac yn nodi cynnydd y plant yn ogystal â'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r staff yn cydweithio'n dda â'r awdurdod lleol i gael cyngor, arweiniad a hyfforddiant er mwyn rhoi'r cymorth gorau posibl i'r plant sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn gryf drwy'r lleoliad.

| Yr Amgylchedd | Da |
| --- | --- |

Mae’r adeilad yn gynnes ac yn ddiogel. Mae'r staff yn sicrhau mai dim ond unigolion awdurdodedig a gaiff ddod i mewn i'r lleoliad a hynny drwy ddrws sydd wedi'i gloi ym mhrif gyntedd y ganolfan gymunedol. Mae'r staff, y plant ac ymwelwyr yn llofnodi pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael y lleoliad, ac yn cofnodi'r amser. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer y safle a gweithgareddau'r plant. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel drwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant a'u dileu lle y bo'n bosibl. Mae'r staff yn sicrhau bod gwiriadau a thystysgrifau diogelwch cyffredinol ar waith ar gyfer yr adeilad a'r dyfeisiau, gan gynnwys yswiriant a gwiriadau diogelwch nwy. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, ac roedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos hyn.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae wedi'i addurno gan ddefnyddio lliwiau tawel, niwtral, sy'n rhoi ymdeimlad hamddenol a chartrefol i'r lleoliad. Mae'r ystafell chwarae yn fawr ac yn olau, gan gynnig gofod da a rhyddid i'r plant symud o gwmpas wrth chwarae. Mae'r staff yn sicrhau bod yr ystafell yn drefnus ac wedi'i gosod mewn modd diddorol er mwyn ysgogi chwilfrydedd y plant a'u hannog i archwilio a datblygu. Maent yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a llyfrau pwrpasol y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd, gan annog eu hannibyniaeth. Mae'r cyfarpar yn yr ardal awyr agored yn hyrwyddo datblygiad corfforol. Ceir cyfarpar dringo gan gynnwys sleid a beiciau cydbwyso i'r plant ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl. Mae'r ardal dan do yn cynnwys amrywiaeth eang o gyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant.

Mae'r staff yn sicrhau bod y teganau, yr adnoddau, y dodrefn a'r cyfarpar yn y lleoliad mewn cyflwr da, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac o ansawdd dda. Maent yn darparu dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant, toiledau a sinciau lefel isel a mannau storio lefel isel sy'n addas ar gyfer oedran y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r tîm o staff ac yn eu harwain yn dda. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant a'u teuluoedd yn glir ac yn gywir. Mae'r arweinwyr yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau hysbysadwy; fodd bynnag, ni chaiff hyn ei wneud yn gyson.

Mae'r arweinwyr yn cwblhau'r holl wiriadau cyn cyflogi perthnasol er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae ganddynt system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y staff yn gyfredol. Mae gan yr arweinwyr system ar waith i olrhain hyfforddiant gorfodol. Mae'r arweinwyr yn cynnal arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd goruchwylio un i un â'r staff, sy'n eu galluogi i drafod unrhyw bryderon, materion diogelu a chyfleoedd hyfforddi. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion goruchwylio y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad wedi'u dyddio.

Mae adroddiad ar ansawdd y gofal ar gael, sy'n dathlu cyflawniadau'r lleoliad ac yn helpu i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried safbwyntiau'r plant, y staff a'r rhieni.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan yr arweinwyr. Gwnaethant ddweud wrthym fod yr arweinwyr wedi eu cefnogi'n arbennig o dda yn ddiweddar wrth iddynt drosglwyddo i'r ffordd newydd o gynllunio. Mae'r lleoliad wedi ennyn ymddiriedaeth y rhieni ac wedi sefydlu cysylltiadau cyfathrebu da â nhw. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn hawdd mynd atynt, a'u bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir i'w teuluoedd. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn teimlo fod eu plant wedi datblygu'n dda ers dechrau mynychu'r lleoliad. Mae'r arweinwyr wedi datblygu cysylltiadau gweithio proffesiynol â'u swyddogion Dechrau'n Deg sy'n rhoi cymorth iddynt er mwyn sicrhau eu bod bob amser yn cynnig gofal o ansawdd da i'r plant sy'n mynychu'r lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod yr aelod o staff sy'n paratoi'r byrbrydau yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol. |
| Safon 21 - Hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys | Sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael ei hysbysu'n gyson am ddigwyddiadau hysbysadwy. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod dyddiadau yn cael eu cofnodi'n glir ar gofnodion goruchwylio. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Ystyried sut gall y plant dorri eu ffrwythau eu hunain yn ystod amser byrbryd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/10/2024